

## PRIFFYRDD, CYMRU

2009 RHIF

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN GLANFA'R GORLLEWIN, GER TERAS TRESILIAN, BUTETOWN, CAERDYDD) 200-

*Gwnaed* 200-

*Yn dod i rym* 200-

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a'r holl bwerau galluogi eraill(2).

#### 1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn Glanfa'r Gorllewin, ger Teras Tresilian, Butetown, Caerdydd) 200-" sy'n mynd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir gyda llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi'u bodloni fod angen y cau i alluogi gwaith datblygu gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd nes bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r briffordd;

(b) hyd nes bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau ac y bydd y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig

o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi'u cyflawni.

4. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd honno, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi'i ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf, yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn Glanfa'r Gorllewin, ger Teras Tresilian, Butetown, Caerdydd) 200-.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 200-

## **J COLLINS**

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1990 p.8

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **ATODLEN 1**

**(bras amcan yw pob mesuriad)**

### **Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp o briffordd â'i led ar y mwyaf yn 8 metr a'i hyd ar y mwyaf yn 44 o fetrau, sef rhan o Lôn Glanfa'r Gorllewin, ger Teras Tresilian, yn Butetown, Caerdydd o bwynt 53 o fetrau o'i chyffordd â Teras Tresilian, hyd at ddiwedd Lôn Glanfa'r Gorllewin lle mae'n cyfarfod y llain o dir sydd wewdi'i ffensio ar Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Tresilian.

## **ATODLEN 2**

### **Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig**

Ailddatblygu'r safle i gynnwys canolfan asesu tai (yn cynnwys caffi), canolfan ddydd a hosteli yn Tresillian House, Huggard Centre a Taff Workshops ger Teras Tresilian, Butetown, Caerdydd, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III) o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 20 Ebrill 2009 dan gyfeirnod 09/00102/C.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN GLANFA'R GORLLEWIN, TERAS TRESILIAN, BUTETOWN, CAERDYDD) 200-**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu.

Yn ystod 28 o ddiwrnodau o 10 Rhagfyr 2009 gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adnewydd yn ystod oriau swyddfa arferol yn Adran

Priffyrdd Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Rhodfa'r Iwerydd, Caerdydd, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru CZ510-5-71-qA815899.

O fewn y cyfnod uchod o 28 o ddiwrnodau, caiff unrhyw berson, drwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, TPG3, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (gan ddyfynnu'r cyfeirnod CZ510-5-71-815899), wrthwynebu gwneud y Gorchymyn.

**Noder os gweler yn dda:** Pe byddech yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi ni i ddelio â'r materion yr ydych chi wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fydd Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (dewiser 'Deddfwriaeth', 'is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Ddrafft', ' Gorchmynion cau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref'.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 10, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF3 3NQ.**

**M D BURNELL**

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**ATODLEN 1**

**(bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp o briffordd â'i led ar y mwyaf yn 8 metr a'i hyd ar y mwyaf yn 44 o fetrau, sef rhan o Lôn Glanfa'r Gorllewin, ger Teras Tresilian, yn Butetown, Caerdydd o bwynt 53 o fetrau o'i chyffordd â Teras Tresilian, hyd at ddiwedd Lôn Glanfa'r Gorllewin lle mae'n cyfarfod y llain o dir sydd wewdi'i ffensio ar Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Tresilian.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig**

Ailddatblygu'r safle i gynnwys canolfan asesu tai (yn cynnwys caffi), canolfan ddydd a hosteli yn Tresillian House, Huggard Centre a Taff Workshops ger Teras Tresilian, Butetown, Caerdydd, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 20 Ebrill 2009 dan gyfeirnod 09/00102/C.